

Gwlyb a gwyntog: Ynni adnewyddadwy ar YGLIC

Mae'r YGLIC yn helpu darparu sicrwydd ynni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

[Prosiect Ynni Gwynt Pen y Cymoedd](#) yw'r fferm wynt fwyaf ar y tir yng Nghymru ac mae wedi'i lleoli ar YGLIC. Cwblhawyd y prosiect yn 2017 a bydd yn weithredol am y 25 mlynedd nesaf. Dyma rai ffeithiau allweddol:

- Mae 76 o dyrbinau, pob un yn 145m o uchder.
- Mae'n cynnwys prosiect storio batri 5MW arloesol.
- Bu mwy na 1,000 o weithwyr o Gymru yn helpu i adeiladu'r fferm wynt.
- Aeth 52% o'r buddsoddiad gwerth £400 miliwn er mwyn adeiladu'r prosiect i fusnesau yng Nghymru.
- Amcangyfrifir y bydd yn arbed 6.4m tonnell o CO² dros oes y prosiect.
- Bydd yn cynhyrchu digon o drydan i gwrdd â'r angen domestig o 188,000 o gartrefi'r flwyddyn, sy'n cyfateb i 15% o holl gartrefi Cymru.
- Sefydlwyd cronfa o £3m i gefnogi cynllun adfer mawn a chreu cynefin.
- Crëwyd Cronfa Ymddiriedolaeth Gymunedol o £45m i gefnogi pobl leol.
- Mae caban addysg ar y safle sy'n cynnal ymweliadau ysgol rheolaidd.
- Mae'n cynhyrchu oddeutu £7 miliwn o incwm y flwyddyn i Lywodraeth Cymru.
- Mae wedi ariannu creu llwybr beic mynydd £350k newydd – *Blade* – ym Mharc Coedwig Afan, a gwaith adnewyddu £100,000 ychwanegol ar y llwybr *Skyline*.
- Sefydlwyd cronfa blannu gydadferol ar gyfer plannu coed er mwyn gwrthbwysu'r rhai a symudwyd wrth adeiladu'r prosiect.
- Mae'n parhau i gyflogi Tîm Gweithrediadau ar y safle ac mae'r mwyafrif ohonynt yn byw'n lleol.



[Cynllun Hydro Anawn](#) Abergwyngregyn yw'r cynllun ynni dŵr mwyaf yng Nghymru sy'n eiddo i'r gymuned, ac mae cryn dipyn o'r cynllun wedi'i leoli ar YGLIC.

Mae'r cynllun yn eiddo i, ac yn cael ei reoli gan Ynni Anafon Energy Cyf, sy'n Gymdeithas Budd-dal Cymunedol. Dechreuwyd ar y gwaith paratoadol ym mis Mawrth 2015 a chwblhawyd y cynllun ym mis Rhagfyr 2015.

Un flwyddyn yn ddiweddarach, adroddwyd bod y cynllun wedi allforio 1,128,130 KWh o drydan i'r grid cenedlaethol, gan ennill tua £240,000 gros. Roedd hyn yn ddigon o drydan i gwrdd â'r defnydd blynyddol o 284 o gartrefi cyfartalog, nifer sylweddol fwy na'r 100 o aelwydydd yn Abergwyngregyn. Mae'r elw sydd ar gael ac a gynhyrchwyd gan y cynllun hydro wedi eu trosglwyddo i elusen newydd, Dŵr Anafon, er mwyn dosbarthu'r arian er budd cymunedau lleol.

Ar Drywydd Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy:

